

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU**  
**SWYDD-DDISGRIFIAD**

<b>Adran</b>	Hyfforddi a Datblygu
<b>Swydd</b>	Hyfforddwr Gyrru (LGV a LV ERDT)  Yn gweithio tuag at:-  Hyfforddwr Gyrru Cerbydau Arbenigol (yn gymwys ym mhob gwahanol gategori o gerbydau a ddefnyddir gan y gwasanaeth hwn)
<b>Rhif y Swydd</b>	NU106
<b>Gradd</b>	9
<b>Lleoliad</b>	Canolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd
<b>Yn gyfrifol i'r</b>	Rheolwr Hyfforddi Technegol
<b>Yn gyfrifol am</b>	Hyfforddiant i Yrwyrr Cerbydau Nwyddau Mawr (LGV), Cerbyd Ysgafn (LV), Hyfforddiant Ymateb Argyfwng i Yrwyrr (ERDT), cerbydau oddi ar y lôn, Cerbydau Cludo Teithwyr (PCV), cerbydau ysgafn a thynnu ôl-gerbydau  Yn gweithio tuag at:- Hyfforddiant yn nefnydd cerbydau Arbenigol a Gyrrwr
<b>Cyfrifoldeb dros Adnoddau Corfforol</b>	Oes

**Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth**

**PRIF BWRPAS Y SWYDD**

Bydd deiliad y swydd yn ffurfio rhan o dîm fydd yn gyfrifol am hyfforddi a datblygu o fewn y sefydliad i hyfforddi personél Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (staff gweithredol a chynorthwyol) ac asiantaethau eraill yn unol â'r cyfarwyddyd.

Gofynnir iddynt gynnal eu cymhwyseddau i yrru a darparu hyfforddiant ar gerbydau LV ERDT, LGV ERDT, cerbydau oddi ar y lôn, cerbydau ysgafn, tynnu ôl-gerbydau a PVC ar gais Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. (ADI) Pan fydd gofyn, disgwylir iddynt weithio tuag at ennill cymhwysedd i yrru, gweithredu a hyfforddi ar bob math o beiriannau tân arbenigol, i gwrdd â safonau eraill a gydnabyddir gan RTITB neu'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch (ITSSAR, NPORS, AITT ac ati).

## DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU:

1. I drefnu, cydlynu ac ymgymryd â hyfforddiant gyrrwyr / gweithredwyr i weithwyr y Gwasanaeth ar bob cerbyd arbenigol gan gynnwys yr Uned Ymateb i Ddigwyddiadau, a chynhwysyddion Pwmp Cyfaint Mawr, Chwilio ac Achub Trefol a Cherbyd Achub dros dro. Wagenni Fforch Godi (Moffett Mounty and Counterbalance) a Chraeniau Llwythwyr Lori ar gefn cerbydau. Sicrhau gweithredu cymwys a diogel ar gais y Gwasanaeth, RTITB (neu gorff arall a gydnabyddir yn genedlaethol gan y Gweithgor lechyd a Diogelwch) a'r Gweithgor lechyd a Diogelwch. Sicrhau crynhoi a chynnal holl gofnodion hyfforddi gyrrwyr a gweithredwyr cerbydau arbenigol i safon uchel ar gyfer archwilio ar gais y Gwasanaeth, RTITB (neu gorff arall a gydnabyddir yn genedlaethol gan y Gweithgor lechyd a Diogelwch).
2. I ymgysylltu â'r adran Staffio Canolog i gydlynu a chynnal hyfforddiant gweithwyr Y Gwasanaeth Tân ar holl gerbydau LV ERDT, PCV, cerbydau oddi ar y lon, tynnu ôl-gerbydau a phob cerbyd ysgafn.
3. I drefnu, cydlynu a chynnal hyfforddiant cychwynol ac ailymgymhwyso gyrrwyr y Gwasanaeth mewn sgiliau gyrru LGV ERDT (ADI). Sicrhau y coladir a chedwir cofnodion Hyfforddiant Cyflymdra Uchel (HSDT) yn briodol
4. I drefnu, cydlynu ac ymgymryd â holl hyfforddi cychwynol ac ailymgymhwyso gyrrwyr y Gwasanaeth mewn sgiliau gyrru LV ERDT. Sicrhau y coladir a chedwir cofnodion HSDT yn briodol.
5. I drefnu, cydlynu ac ymgymryd â hyfforddiant trosi ar bob math o gerbydau i holl weithwyr y Gwasanaeth yn ôl y gofyn, gan sicrhau gweithredu cymwys a diogel.
6. I drefnu, cydlynu ac ymgymryd â derbyniadau cerbydau ysgafn ar gyfer pob math o gerbydau i'r holl weithwyr yn ôl y gofyn, gan sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn gymwys. Sicrhau y codir a chofnodir pob dogfennaeth yn gywir.
7. I drefnu, cydlynu ac ymgymryd â hyfforddiant gweithwyr yn ôl y gofyn mewn technegau gyrru oddi ar y lon, gan sicrhau gweithredu cymwys a diogel.
8. I drefnu, cydlynu ac ymgymryd â sgiliau PCV gyrrwyr y Gwasanaeth, gan sicrhau gweithredu diogel a chymwys.
9. I drefnu, cydlynu ac ymgymryd â sgiliau tynnu ôl-gerbydau i yrrwyr y Gwasanaeth, gan sicrhau gweithredu diogel a chymwys.
10. I drefnu, cydlynu ac ymgymryd â hyfforddiant gyrrwyr arbenigol ar bob math o gerbydau o fewn cymhwyster deiliad y swydd i'r holl weithwyr yn ôl y gofyn, gan sicrhau eu bod yn ddiogel a chymwys.

11. I gynrychioli'r Gwasanaeth mewn seminarau a gweithdai hyfforddiant i yrwyr Rhanbarthol a Chenedlaethol ar gerbydau Arbenigol ERDT a materion gyrru eraill.
12. I ymgysylltu ag asiantaethau allanol i ddarparu lleoliadau hyfforddi addas ar gyfer gweithgareddau hyfforddi arbenigol.
13. I ddelio ag ymholiadau sy'n berthynol i yrru a chysylltu â'r Grŵp Risg Ffyrdd y Gwasanaeth (RRG) fel bo'n briodol.
14. I sicrhau y codir a chofnodir pob dogfennaeth hyfforddi gyrrwyr yn gywir, e.e. trwyddedau gyrru
15. I gynorthwyo yn ôl y gofyn ag ymchwil/archwilio sy'n ymwneud â gyrru a monitro cyffredinol safonau gyrru o fewn y Gwasanaeth.
16. I drefnu a chydlynu cyfathrebu â gwneuthurwyr a darparwyr cerbydau i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gynllunio a darparu cyrsiau i yrwyr/gweithredwyr.
17. I drefnu a chydlynu cyfathrebu â'r adran Cymorth Hyfforddi i gynllunio a datblygu pecynnau hyfforddiant i yrwyr a gweithredwyr cerbydau arbenigol a'u diweddarau yn ôl y gofyn.
18. I drefnu a chydlynu cyfathrebu â rheolwr y fflyd Gweithdai ynghylch hyfforddiant gweithwyr y Gwasanaeth ar holl faterion newydd peiriannau ac arwain ar grynhoi canllawiau ar gyfer cerbydau newydd.
19. I gysylltu ag adrannau Gweithrediadau a Staffio Canolog i sicrhau bod personél priodol yn cael eu hyfforddi mewn gyrru/gweithredu cerbydau a phoblogi cyrsiau'n briodol.
20. I ddarparu cymorth i holl bersonél gweithredol a chefnogol drwy gynnal ymweliadau cyfarwyddyd i gynnal cymhwysedd sector gyrrwyr ar bob lefel a all gynnwys ymweliadau min nos a phenwythnosau.
21. I ymgysylltu â'r adran Trafnidiaeth a Pheirianeg i sicrhau y cynhelir Cerbydau Hyfforddiant y Ganolfan i'r safon sy'n ofynnol gan y Gwasanaeth.

## GOFYNION GWASANAETH SAFONOL

- I fynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl yr angen
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesurol â'r raddfa a'r swydd
- I gydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot o'r fath a gyflwynir o fewn yr Adran neu ar draws y Gwasanaeth
- I weithredu egwyddorion Polisiâu Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a Chynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod

- I ufuddhau i Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch/Polisiau a Gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol a chymryd gofal rhesymol am eich iechyd a diogelwch eich hun yn ogystal â rhai personau eraill a all gael eu heffeithio'n andwyol gan eich gweithredoedd/anweithredoedd

## **GWERTHOEDD SEFYDLIADOL**

Wrth berfformio'r rôl uchod, mae'n ofynnol i bob gweithiwr y Gwasanaeth ddilyn a hyrwyddo Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth ar bob adeg, megis bod:

- Yn broffesiynol
- Yn ofalgar
- Yn barchus
- Yn ymroddgar
- Yn ddibynadwy
- Yn rymus
- Yn ddisgybledig
- Yn hydwyth

D.S: Mae'r rôl hon yn cynnwys teithio cyson rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol.



**GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU**  
**Y FANYLEB PERSON**

<b>ADRAN</b>	Hyfforddi a Datblygu
<b>TEITL Y SWYDD</b>	Hyfforddwr Gyrru (LGV a LV ERDT)  Gyda, neu'n gweithio tuag at: -  Hyfforddwr Gyrru Cerbydau Arbenigol (yn gymwys ym mhob gwahanol gategori o gerbydau a ddefnyddir gan y Gwasanaeth hwn)
<b>RHIF Y SWYDD</b>	NU106
<b>GRADD</b>	9
<b>LLEOLIAD</b>	Canolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd

Defnyddir meini prawf hanfodol **a amlygir ac a nodir â seren\*** at ddibenion llunio rhestr fer. A wnewch chi sicrhau yr ewch i'r afael â'r gofynion hyn yn eich Ffurflen Gais (o dan yr Adran '*Profiad a Gwybodaeth Arall*'). Dylech ddarparu tystiolaeth eglur sy'n arddangos eich bod yn cwrdd â phob maes ar sail eich sgiliau, gwybodaeth, profiad a gallu sy'n berthnasol i'r swydd.

Lle amlygir cymhwyster fel 'Maen Prawf Hanfodol', bydd angen i chi ddarparu copi o'ch Tystysgrifau ynghyd â'ch Ffurflen Gais.

<b>Ffactor</b>	<b>Tystiolaeth</b>	<b>Hanfodol/ Dymunol</b>	<b>Dull Canfod</b>
<b>Cymwysterau</b>	<b>Trwydded Yrru Gyffredin a Thrwydded Yrru Cerbydau Nwyddau Mawr (LGV). Rhaid bod y ddwy drwydded yn gyfredol ers 3 blynedd o leiaf. *</b>	<b>Hanfodol*</b>	<b>Ffurflen Gais*</b>
	Tystysgrif Cymorth Cyntaf yn y Gweithle. Neu brofiad perthnasol.	Dymunol	Ffurflen Gais
	Cymhwyster Hyfforddi.	Dymunol	Ffurflen Gais
	<b>Oherwydd bod gofyn cael cymwysterau Arbenigol ar gyfer y rôl, bydd yn ofynnol i'r unigolyn bod â chymhwyster:</b>		
	<ul style="list-style-type: none"> <li><b>Hyfforddwr Gyrru Cymeradwy (ADI) yn gofrestredig â'r Asiantaeth Safonau i Yrwyr a Cherbydau (DVSA)*</b></li> </ul>	<b>Hanfodol*</b>	<b>Ffurflen Gais*</b>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymhwyster RTITB neu gymhwyster Gweithgor Iechyd a Diogelwch arall a gydnabyddir yn genedlaethol (ITSSAR, NPORS, AITT ac ati.) mewn pob math o gerbydau arbenigol</li> <li>• Aelodaeth o Gymdeithas Frenhinol Atal Damweiniau (RoSPA) neu IAM Roadsmart</li> <li>• Dyfarniad Aseswr, <u>h.y.</u> Edexcel neu gymhwyster cyfartal</li> </ul>	Dymunol	Ffurflen Gais
		Dymunol	Ffurflen Gais
		Dymunol	Ffurflen Gais
<b>Gwybodaeth/ Profiad</b>	<p><b>Profiad wrth ddarparu Hyfforddiant i Yrwy ym mhob un neu rai o'r canlynol:</b>  <b>Cerbydau Nwyddau Mawr</b>  <b>Cerbydau ysgafn</b>  <b>Cerbydau Cario Teithwyr</b>  <b>Tynnu Ôl-gerbydau</b>  <b>Hyfforddiant Ymateb Argyfwng i Yrwy</b>  <b>Cerbydau oddi ar y lôn</b>  <b>Wagenni Fforch Godi</b>  <b>Cynhwysyddion dros dro</b>  <b>Craeniau ar gefn cerbydau/ Llwythwyr Lori*</b></p> <p><b>Profiad mewn gweithredu pob un neu rai o'r canlynol</b>  <b>Cerbydau Nwyddau Mawr</b>  <b>Cerbydau Cario Teithwyr</b>  <b>Tynnu Ôl-gerbydau</b>  <b>Hyfforddiant Ymateb Argyfwng i Yrwy</b>  <b>Cerbydau oddi ar y lôn</b>  <b>Wagenni Fforch Godi</b>  <b>Cynhwysyddion dros dro</b>  <b>Craeniau ar gefn cerbydau/ Llwythwyr Lori.*</b></p> <p>Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg</p>	<b>Hanfodol*</b>	<b>Ffurflen Gais*/ Proses Ddethol</b>
		<b>Hanfodol*</b>	<b>Ffurflen Gais*/ Proses Ddethol</b>
		Dymunol	Ffurflen Gais
<b>Arddull Bersonol</b>	<p>Y gallu i weithio mewn cydymffurfedd llwyr â pholisïau sefydliadol a chyfarwyddyd deddfwriaethol, gan barchu unrhyw wybodaeth sensitif a gyflwynir</p> <p>Y gallu i gynnal agwedd hyderus a chydnerth mewn sefyllfaoedd hynod heriol</p>	Hanfodol	Ffurflen Gais/ Proses Ddethol
		Dymunol	Ffurflen Gais/ Proses Ddethol
<b>Rhyngbersonol</b>	<b>Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig ill dau i ystod eang o gynulleidfaedd.*</b>	<b>Hanfodol*</b>	<b>Ffurflen Gais*/ Proses</b>

	<b>Ymrwymiad i a'r gallu i ddatblygu eich hun, unigolion, timau ac eraill i wella effeithiolrwydd gweithredol.*</b>	<b>Hanfodol*</b>	Ddethol <b>Ffurflen Gais*/</b> Proses Ddethol
<b>Tasg</b>	Y gallu i ddeall a chymhwyso gwybodaeth berthnasol i wneud penderfyniadau priodol a chreu datrysiadau ymarferol.	Dymunol	Ffurflen Gais/ Proses Ddethol
	<b>Y gallu i gynnal ymwybyddiaeth fyw o'r amgylchfyd i hyrwyddo gweithio diogel ac effeithiol.*</b>	<b>Hanfodol*</b>	<b>Ffurflen Gais*/</b> Proses Ddethol

**Mae'r rôl hon yn cynnwys teithio cyson rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol.**

**Bydd gofyn am wiriad gan Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (ADG) mewn achos cais llwyddiannus. Bydd meddu ar gofnod troseddol ddim o reidrwydd yn rhwystr i chi dderbyn swydd. (Dilëwch fel bo'n briodol)**